

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	16 Gorffennaf 2026
Pwnc:	Diweddariad ar y Gofrestr Risgiau Strategol
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru
Natur a Rheswm dros Adrodd: Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys gofyniad penodol i'r pwyllgor adolygu, asesu ac adrodd ar ba mor effeithiol yw'r cyngor wrth ddatblygu a gweithredu trefniadau rheoli risg o fewn y cyngor (3.4.8.8.1). Fel rhan o'r gyfrifoldeb hon, bydd yn adolygu'r gofrestr risgiau strategol ac yn ceisio sicrwydd bod rheolwyr yn perchnogi risgiau'n briodol a'u rheoli'n effeithiol, a bydd yn ystyried a yw trefniadau ar gyfer adnabod ac asesu risgiau'n ddigonol ac effeithiol a ph'un a yw mesurau lliniaru a gynlluniwyd yn briodol ac effeithiol, gan wneud argymhellion i'r perchennog risg cyfrifol lle bo hynny'n briodol. (3.4.8.8.3) Bydd sicrwydd dros reoli risg hefyd yn elfen bwysig sy'n sylfaen ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. (3.4.8.8.2)	

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Gofrestr Risg Strategol (Atodiad B) fel ag yr oedd ar 30 Mehefin 2026, ynghyd â map gwres ac adroddiad cyfeiriad teithio (cyfeiria [Atodiad A](#)).

2. Gwelliannau parhaus i'r fframwaith rheoli risg

2.1 Ad-drefnwyd system rheoli risg y cyngor (4risk) ym mis Mawrth 2026 ar y cyd â'n darparwr meddalwedd, RSM. Ers hynny, mae'r Gofrestr Risg Strategol wedi ei llwytho ar y system, ac wedi ei hadolygu'n drylwyr.

2.2 Darparodd RSM nifer o sesiynau hyfforddi i swyddogion ar ddefnyddio'r system 4risk yn ystod mis Mawrth ac Ebrill 2026, yn ogystal â hyfforddiant penodol ar weinyddu'r system i'r Swyddog Cymorth Strategol a'r Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth) a'r Tîm Archwilio Mewnol, fel mesur wrth gefn.

2.3 Darparodd 'Zurich Resilience Solutions' – cangen arbenigol rheoli risg ein hyswirwyr, Zurich Municipal – hyfforddiant rheoli risg i reolwyr busnes, uwch-reolwyr a swyddogion ym mis Mehefin 2026, a chafwyd ymateb da iddo.

2.4 Mae'r Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth) yn aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth a'r Tîm Rheoli, ac yn diweddaru'r Gofrestr Risg Strategol yn barhaus yn dilyn y cyfarfodydd hyn. Adolygodd y Tîm Arwain y Gofrestr Risg Strategol yn ffurfiol ym mis Mehefin 2026.

3. Map gwres

3.1 Mae'r mapiau gwres isod yn dangos crynodeb o'r risgiau strategol, gan fanylu ar nifer y risgiau sy'n weddill a risgiau cynhenid. Dangosir graddfeydd risg yn y diweddariad diwethaf ym mis Chwefror 2026 mewn cromfachau.

Nifer y risgiau cynhenid

Bron yn sicr	5			(2)	3 (2)	2 (2)
Tebygol	4			(2)	1 (1)	
Posib	3			1 (1)	4	1 (1)
Annhebygol	2					
Prin	1					
		1	2	3	4	5
		Dinod	Mân	Cymedrol	Sylweddol	Trychinebus

Nifer y risgiau sy'n weddill

Bron yn sicr	5					
Tebygol	4			1 (2)	1 (2)	1
Posib	3			5 (3)	1 (1)	
Annhebygol	2			2 (2)	1 (1)	
Prin	1					
		1	2	3	4	5
		Dinod	Mân	Cymedrol	Sylweddol	Trychinebus

4. Symudiad ers y diweddariad diwethaf (Chwefror 2026)

4.1 Mae adroddiad 'Cyfeiriad Teithio' wedi'i gynnwys yn [Atodiad A](#) sy'n cofnodi'r symudiad mewn sgôr risg ers y diweddariad diwethaf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Chwefror 2026.

4.2 Mae hyn yn dangos bod y proffil risg gweddilliol cyffredinol yn parhau i fod yn sefydlog ar y cyfan, gyda'r mwyafrif o risgiau strategol wedi'u graddio fel Cymedrol neu Fawr. Fodd bynnag, mae dau risg ar hyn o bryd yn cael eu graddio'n Critigol: STR0010 Asedau Ffisegol a'r STR0012 Ymosodiad Seiber a Thor Diogelwch Data sydd newydd ei nodi. Mae cyflwyno STR0012 wedi gwahanu amlygiad seiber a thor diogelwch data oddi wrth STR0002 Gwydnwch Digidol, gan arwain at sgôr weddilliol llai ar gyfer STR0002 o Feirniadol i Gymedrol. Mae hyn yn darparu mwy o eglurder dros broffil risg digidol a seiber y cyngor ond hefyd yn tynnu sylw at seiberddiogelwch a thorri data fel maes allweddol sy'n gofyn am uwch oruchwyliaeth barhaus.

5. Argymhelliad

5.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael sicrwydd o'r gwaith a wnaed hyd yma fel rhan o'r adolygiad cynhwysfawr o'r gofrestr risg strategol, ad-drefnu'r system rheoli risg, hyfforddiant staff ac adolygu'r Gofrestr Risg Strategol yn barhaus.

Atodiad A – Adroddiad Cyfarwyddyd Teithio (Chwefror i Fehefin 2026)

Rhagddod iad	Risg	Sgôr Cynhenid (Effaith x Tebygolrwydd)	Sgôr Gweddilliol (Effaith x Tebygolrwydd)	Cyfeiriad Teithio Gweddilliol	Sgôr Gweddilliol (Chwefror 2026)
STR0001	Cyllid a rheoli cyllid	Critigol (5:3=15)	Mawr (4:3=12)	=	Mawr (4:3=12)
STR0002	Gwydnwch Digidol (TG ac ymosodiadau seiberddiogelwch yn flaenorol)	Mawr (4:3=12)	Cymedrol (3:3=9)	⬇	Critigol (4:4=16)
STR0003	Diogelu	Critigol (4:5=20)	Cymedrol (3:3=9)	=	Cymedrol (3:3=9)
STR0004	Recriwtio, cadwraeth a pharhad mewn arweinyddiaeth	Critigol (4:5=20)	Mawr (3:4=12)	=	Mawr (3:4=12)
STR0005	Partneriaethau	Mawr (4:3=12)	Cymedrol (3:3=9)	=	Cymedrol (3:3=9)
STR0006	Cadwyn Gyflenwi	Critigol (4:4=16)	Mawr (4:2=8)	=	Mawr (4:2=8)
STR0007	Yr Iaith Gymraeg	Mawr (4:3=12)	Cymedrol (3:2=6)	=	Cymedrol (3:2=6)
STR0008	Cyflenwi a Moderneiddio Gwasanaethau (Cynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol yn flaenorol)	Mawr (4:3=12)	Cymedrol (3:3=9)	⬇	Mawr (3:4=12)
STR0009	Llywodraethiant a chydymffurfiaeth	Critigol (4:5=20)	Cymedrol (3:3=9)	=	Cymedrol (3:3=9)
STR0010	Asedau Ffisegol	Critigol (5:5=25)	Critigol (4:4=16)	=	Critigol (4:4=16)
STR0011	Cartrefi i bobl leol	Cymedrol (3:3=9)	Cymedrol (3:2=6)	=	Cymedrol (3:2=6)
STR0012	Ymosodiad seiber a thor diogelwch data	Critigol (5:5=25)	Critigol (5:4=20)	NEWYDD	

Atodiad B – Cofrestr Risgiau Strategol - Mehefin 2026

Rhif y Risg	Risg	Perchen y Risg	Blaenoriaeth (Effaith x Thebygol rwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddillol (Effaith x Thebygol rwydd)	Camau Gofynnol	Perchen y Weithred	Erbyn
STR0001	Cyllid a Rheolaeth Ariannol Cyllid sy'n hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau statudol a chyflawni amcanion strategol wedi lleihau neu'n annigonol.	Marc Jones - Cyfarwydwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151	Critigol (5:3=15)	Balansau o dros 5% o'r gyllideb flynyddol yn cael eu cadw wrth gefn. Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) - CATC ar gyfer y cyfnod 2026/27 i 2028/29 wedi cael ei gymeradwyo. Monitro cyllid yn rheolaidd a darparu diweddariadau i'r arweinwyr. Proses gadarn ar gyfer pennu cyllidebau a darogan. Protocol ar waith ar gyfer Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi ers Rhagfyr 2025. Archwilio a sicrwydd - archwiliadau mewnol ac allanol rheolaidd. Hyfforddiant rheoli cyllid parhaus ar gyfer staff perthnasol. Caiff cyllidebau eu gosod a'u rheoli'n agos er mwyn diogelu	Sylweddol (4:3=12)	Datblygu sut mae'r cyngor yn casglu a dadansoddi data, a defnyddio data fel sylfaen ar gyfer gosod cyllidebau blynyddol. Hyrwyddo a gwneud defnydd effeithiol o'r gost o newid cyllideb. Cryfhau rheolaeth dros gyllideb drwy ailgyflwyno dull cadw cyllideb, sy'n galluogi gwasanaethau i gadw cyfran o'r tanwariant ar gyfer prosiectau blaenoriaeth tra'n gofyn i ariannu gorwariant drwy arian wrth gefn y gwasanaethau hynny.	Dylan Williams / Marc Jones Tîm Arweinyddiaeth Marc Jones	Mawrth 2027 Mawrth 2027 Mawrth 2027

Rhif y Risg	Risg	Perchen y Risg	Blaenori aeth (Effaith x Thebygol rwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddillol (Effaith x Thebygol rwydd)	Camau Gofynnol	Perchen y Weithred	Erbyn
				cronfeydd wrth gefn i ddelio ag argyfwng. Ystyried y newidiadau demograffig a'r effaith ar wasanaethau pan fo'r galw'n uwch. Lobio - ymgysylltu'n barhaus â'r llywodraeth a chyrff cyllido i sicrhau adnoddau digonol. Adolygiad ar wasanaeth statudol wedi'i gwblhau yn ystod y broses o osod cyllideb 2026/27. Mae gwariant refeniw hanesyddol yn cael ei adolygu er mwyn adnabod cyllidebau nad oes eu hangen mwyach, costau arfaethedig rhy uchel, neu incwm llai nag yr oedd, gyda'r canfyddiadau yn siapio'r broses o osod y gyllideb flynyddol.				
STR0002	Gwydnwch digidol Methiant gwasanaethau digidol	Rhys H Hughes - Dirprwy Brif Weithredwr	Sylweddol (4:3 = 12)	Mae'r strategaeth wrth gefn yn cyd-fynd â gofynion parhad busnes y gwasanaeth sy'n berchen ar y system (adfer) Mae gan bob gwasanaeth gynllun parhad busnes ac mae cynllun	Cymedrol (3:3=9)	Datblygu rhestr o systemau critigol manwl a phenodol. Sefydlu a chynnal cofrestr asedau gwybodaeth lawn.	Lynn Ball/Huw Ynyr Huw Ynyr	Ionawr 2027 Mawrth 2028

Rhif y Risg	Risg	Perchen y Risg	Blaenori aeth (Effaith x Thebygol rwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddilli ol (Effaith x Thebygol rwydd)	Camau Gofynnol	Perchen y Weithred	Erbyn
	hanfodol ac adferiad.			parhad busnes ar waith ar gyfer y Cyngor cyfan. Mae fframwaith llywodraethu ar waith i ddarparu sicrwydd ar brosiectau strategol newydd; Data, Digidol a Thechnegol, Bwrdd Strategaeth Digidol a'r Tîm Arweinyddiaeth - Digidol a Chyfalaf. Mae Cynllun Strategol Digidol y cyngor ar gyfer 2024-2029 yn darparu fframwaith strwythuredig ar gyfer datblygiadau digidol ar draws y cyngor. Mae'r Cynllun Strategol Digidol Addysg ar gyfer 2026-2031 yn darparu fframwaith strwythuredig ar gyfer datblygiadau digidol yn ein hysgolion. Ffynhonnell pŵer amgen (generaduron disel) wedi'u darparu i'r ddwy Ganolfan Dda. Gwydnwch rhyngrwyd gyda llwybro amgen dros rwydwaith PSBA		Adolygu'r datrysiad wrth gefn ac adfer presennol i sicrhau bod yr holl gopïau wrth gefn (ar y safle/DC a'r cwmwl) yn gwbl adferadwy ac yn ddigifnewid, gan sicrhau Amcan Pwynt Adfer (RPO) rhagorol. Adolygu'r Cynllun Adfer ar ôl Trychineb i adlewyrchu seilwaith presennol y Cyngor ac amrywiol ddatrysiadau cwmwl. Trefnu profion ac ymarfer adfer ar ôl trychineb Trefnu ymarferion adfer wrth gefn wythnosol Mae angen adolygu Rheolaeth Gwasanaethau TG a darparu Cytundeb Lefel Gwasanaeth priodol ar gyfer rheoli materion a	Huw Ynyr Huw Ynyr Huw Ynyr Huw Ynyr Huw Ynyr	Mawrth 2027 Mai 2027 Rhagfyr 2027 Ebrill 2027 Medi 2028

Rhif y Risg	Risg	Perchen y Risg	Blaenori aeth (Effaith x Thebygol rwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddillol (Effaith x Thebygol rwydd)	Camau Gofynnol	Perchen y Weithred	Erbyn
				Copiâu wrth gefn llawn a chynyddrannol gyda storfa dâp oddi ar y safle ar gyfer adfer ac anghyfnewidioldeb Mae nifer o systemau busnes a chynhyrchiant wedi'u trosglwyddo i'r cwmwl, gan leihau'r ddibyniaeth ar ein canolfannau data lleol a chanolbwyntio yn hytrach ar rwymedigaethau cytundebol cadarn a gwirio diogelwch y gadwyn gyflenwi.		newidiadau, er mwyn rheoli a thrin disgwyliadau.		
STR0003	Diogelu Methu â diogelu oherwydd prosesau aneffeithiol.	Fôn Roberts - Cyfarwydwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaethau Plant	Critigol (4:5=20)	Mesur ataliol - ymwybyddiaeth o drawma a mentrau Oed Gyfeillgar. Sicrhau bod staff, aelodau a'r cyhoedd yn deall eu dyletswydd i roi gwybod am bryderon diogelu a bod ganddynt ffydd yn y broses i'w galluogi i wneud hynny. Polisi Diogelu Corfforaethol gyda threfniadau llywodraethu clir ar waith ar gyfer adrodd ar lefel uwch, polisiâu a gweithdrefnau o fewn y cyngor. Fframwaith hyfforddi sy'n darparu dull cyngor cyfan i sicrhau bod y gweithlu'n ymwybodol o feysydd	Cymedrol (3:3=9)	Adolygiad Estynedig i Ymarfer Plant - Cyfiawnder trwy ein Dewrder - ymateb i argymhellion a gweithredu'r newidiadau gofynnol. Cymeradwyo'r Cynllun Diogelu Strategol ar gyfer 2026-2031. Adolygu cynrychiolaeth yn y bartneriaeth rhanbarthol / is-rhanbarthol a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu.	Fon Roberts Sian Peacock Susan O Jones	Awst 2026 Medi 2026 Mehefin 2026

Rhif y Risg	Risg	Perchen y Risg	Blaenori aeth (Effaith x Thebygol rwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddilliol (Effaith x Thebygol rwydd)	Camau Gofynnol	Perchen y Weithred	Erbyn
				diogelu / ecsbloetio / cam-drin allweddol a hyfforddiant trylwyr ar ddiogelu ar lefel sy'n gymesur â rôl a chyfrifoldebau'r gweithiwr. Fframwaith o bolisiâu a gweithdrefnau i sicrhau bod pob swydd yn cael ei llenwi a bod y gweithlu'n cael ei reoli'n gwbl unol â'r gofynion statudol - polisi recriwtio a dethol, polisi DBS a polisi recriwtio'n fwy diogel CSYM. Cynllun Gweithredu Diogelu, sy'n canolbwyntio ar weithredu ar draws y cyngor cyfan a meysydd allweddol y dylai'r bwrdd diogelu corfforaethol gadw llygaid arnynt. Partneriaethau. Y cyngor cyfan, iechyd, addysg a'r heddlu fel y gellir rhoi ymyraethau cydlynol ar waith. Cynrychiolaeth briodol ar fyrddau statudol rhanbarthol / partneriaethau / byrddau is-ranbarthol. Rhoi'r hyn a ddysgwyd yn dilyn yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl		Adolygu'r Polisi Diogelu Corfforaethol Wedi rhannu'r polisi diogelu corfforaethol newydd gyda staff drwy'r Porth Polisi. Gweithredu a chyflwyno Canllawiau Diogelu Cymru rhan 5 newydd.	Sian Peacock Sian Peacock Sian Peacock	Gorffen naf 2026 Medi 2026 Mehefin 2027

Rhif y Risg	Risg	Perchen y Risg	Blaenori aeth (Effaith x Thebygol rwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddillol (Effaith x Thebygol rwydd)	Camau Gofynnol	Perchen y Weithred	Erbyn
				(SUSR) ar waith a rhoi'r broses ar waith os caiff digwyddiad difrifol ei adrodd. Parhau i lynu i ddeddfwriaeth ac ymateb i newidiadau.				
STR0004	Recriwtio a pharhad mewn arweinyddiaeth Gall methu â recriwtio'n ddigon cyflym a phrinder talent leihau gallu'r gweithlu, gwanhau parhad mewn arweinyddiaeth, ac amharu ar wasanaethau.	Dylan Williams - Prif Weithredwr	Critigol (4:5=20)	Cynllunio'r gweithlu - mae cynllun ar waith ar gyfer pob gwasanaeth. Cesglir adborth yn ystod cyfweiliadau gadael a holiaduron i ddechreuwy'r newydd er mwyn gwella strategaethau recriwtio a chadw. Micro wefan benodol ar gyfer Gyrfaedd sy'n amlinellu'r manteision o weithio i'r Cyngor. Defnyddir platfformau cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu swyddi gwag. Cydweithio ag ysgolion / colegau / addysg bellach i ddatblygu a hyrwyddo'r sector gofal (Denu Talent). Mae prosesau denu talent a rhaglenni datblygu mewnol ar waith, e.e. (Twf a Datblygu)	Sylweddol (3:4=12)	Cyflwyno adroddiad / dangosfwrdd recriwtio a chadw staff i fonitro swyddi sy'n anodd eu llenwi. Adrodd ar dueddiadau allweddol i'r tîm arweinyddiaeth / rheoli yn gyson. Creu a chynnal cofrestr swyddi critigol ar draws yr holl wasanaethau, gan adnabod swyddi sy'n hanfodol i fusnes, pwynt methu unigol, goruchwyllo olyniaeth a chamau lliniaru ar gyfer bob swydd. Datblygu cynllun prentisiaeth fel estyniad pellach o'n strategaeth "tyfu ar ein pen ein hunain", gan sicrhau bod y cynllun yn cael ei lunio yn seiliedig ar gynllun y	Eurig Williams Caroline Williams Elen Pritchard / Rhian Jones	Rhagfyr 2026 Mawrth 2027 Recriwtio ym mis Mawrth 2027

Rhif y Risg	Risg	Perchen y Risg	Blaenori aeth (Effaith x Thebygol rwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddillol (Effaith x Thebygol rwydd)	Camau Gofynnol	Perchen y Weithred	Erbyn
				ynghyd â chynllun i raddedigion, Dyfodol Môn. Mae pob gwasanaeth yn adolygu disgrifiadau swyddi a manylebau person yn rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn realistig ac yn cydfynd â'r farchnad lafur. Adnabod talent. Adolygu ac adnabod arweinwyr y dyfodol yn rheolaidd drwy'r sgwrs flynyddol. Fforwm Môn - fforwm sy'n galluogi uwch swyddogion y cyngor i dderbyn, rhannu a thrafod.		gweithlu, y gofrestr swyddi critigol a bylchau mewn sgiliau yn y dyfodol. Datblygu cynllun cadw staff unigryw gyda gwasanaethau, gan ddefnyddio data am y gweithlu i gytuno ar gamau lefel gwasanaeth lle mae'r risg o beidio a chadw staff yn cynyddu. Cyflwyno amserlenni penodol ar gyfer bob cam o'r broses recriwtio, yn cynnwys cymeradwyaeth ar gyfer hysbysebu, creu rhestrau byr, cyfweld, cynigion amodol, gwirio cyn cyflogaeth a dyddiad cychwyn. Monitro disgwyliadau a chael gwared ar oediadau.	Caroline Williams Yvonne Winstone	Mawrth 2027 Mawrth 2027
STR0005	Partneriaethau Partneriaethau aneffeithiol,	Susan Owen Jones	Sylweddol (3:4=12)	Cytundebau ffurfio gyda phartneriaid a rolau a chyfrifoldebau clir.	Cymedrol (3:3=9)	Creu blaen rhaglen waith ar gyfer partneriaid i fynychu sesiynau briffio aelodau.	Angharad Hughes	Hydref 2026

Rhif y Risg	Risg	Perchen y Risg	Blaenori aeth (Effaith x Thebygol rwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddilliol (Effaith x Thebygol rwydd)	Camau Gofynnol	Perchen y Weithred	Erbyn
	heb ddigon o oruchwyliaeth, ac a all gael effaith negyddol ar wasanaethau a gwerth am arian.			Partneriaid strategol yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor sgrïwtini partneriaeth yn unol â'r rhaglen sydd ar waith. Cyfarfodydd monitro ac adolygu perfformiad rheolaidd. Gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar drydydd bartïon. Cytundebau lefel gwasanaeth, memorandwm cyd-ddealltwriaeth a threfniadau rheoli contractau ar waith yn ôl y galw. Cofrestr partneriaethau ar waith ac yn cael ei hadolygu'n gyfnodol.		Gwella prosesau rhannu gwybodaeth mewnol (cyn/ar ôl cyfarfodydd partneriaeth strategol).	Susan O Jones	Hydref 2026
STR0006	Cadwyn gyflenwi Gall dibyniaeth ar lond llaw o gyflenwyr allweddol fel rhan o gadwyn gyflenwi'r cyngor achosi oedi i wasanaethau	Marc Jones - Cyfarwydwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151	Critigol 4:4 = 16	Amrywiaeth cyflenwyr a chynlluniau wrth gefn. Adolygiadau ac archwiliadau perfformiad cyflenwyr rheolaidd i nodi'r prif gyflenwyr. Cymalau cytundebol ar gyfer amserlenni cyflawni a chosbau. Rhestr o gyflenwyr cymeradwy. Cytundebau fframwaith.	Sylweddol 4:2 = 8	Recriwtio un swydd ychwanegol i wella capasiti'r tîm a rheoli gofynion gweinyddol ychwanegol sy'n deillio o ddeddfwriaeth newydd. Cyflwyno system gaffael newydd i gefnogi'r gwaith o reoli contract, tendro, monitro ac adrodd.	Marc Jones Gwen Thomas	Medi 2026 Mawrth 2027

Rhif y Risg	Risg	Perchen y Risg	Blaenori aeth (Effaith x Thebygol rwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddilliol (Effaith x Thebygol rwydd)	Camau Gofynnol	Perchen y Weithred	Erbyn
	a lleihau gwydnwch.			Cynlluniau parhad busnes a adfer yn dilyn argyfyngau. Monitro methiannau critigol ac unigol yn y gadwyn gyflenwi yn agos. Monitro beth sy'n digwydd mewn sectorau perthnasol yn yr economi (e.e. adeiladu) a sefydlu proses ar gyfer uwchgyfeirio pryderon yn gyflym. Wedi ymrwymo i gòd ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Dilyn y Cynllun Strategol Caffael a'r dogfennau templed.		Datblygu a Gweithredu Strategaeth Gwerth Cymdeithasol i sicrhau bod Gwerth Cymdeithasol yn cael ei gynnwys yn gyson ac yn ystyrlon mewn prosesau caffael. Datblygu cofrestr contractau gynhwysfawr i adnabod contract hanfodol a chefnogi gwaith cynllunio contractau penodol. Paratoi adroddiad caffael blynyddol yn crynhoi gweithgarwch, y buddion a ddarparwyd a risgiau allweddol.	Gwen Thomas Gwen Thomas Gwen Thomas	Mawrth 2028 Rhagfyr 2026 Gorffen naf 2027
STR0007	Yr Iaith Gymraeg Methu â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg a Pholisi'r Gymraeg, yn	Lynn Ball Cyfarwydwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)	Sylweddol (4:3=12)	Polisi'r Gymraeg *Cynnal a diweddarau'r polisi'n rheolaidd i gyd-fynd â gofynion statudol. *Defnyddio'r gronfa ddysgu a'r porth polisi i sicrhau bod staff ac aelodau yn ymwybodol bod Polisi'r Gymraeg a'r ddeddfwriaeth yn fandadol.	Cymedrol (3:2=6)	Gwella arferion asesiadau effaith a gweithdrefnau iaith Gymraeg fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. Ffurfioli'r weithdrefn gwynion iaith Gymraeg	Dyfan Sion Ffreuer Owen	Ebrill 2027 Rhagfyr 2026

Rhif y Risg	Risg	Perchen y Risg	Blaenori aeth (Effaith x Thebygol rwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddillol (Effaith x Thebygol rwydd)	Camau Gofynnol	Perchen y Weithred	Erbyn
	cynnwys y gofyniad i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.			Hyfforddiant i staff - darparu hyfforddiant rheolaidd i staff ar safonau'r Gymraeg, y disgwyliadau a gwasanaeth cwsmer. Recriwtio a chefnogi - ystyried gofynion ieithyddol gwahanol swyddi a defnyddio'r fframwaith sgiliau iaith Gymraeg. Defnyddio'r Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg (a'r cynllun gweithredu blynyddol) mewn partneriaeth â'r Fforwm Iaith. Monitro Perfformiad - Paratoi arolwg hunan-asesu ac adroddiad blynyddol. - Adrodd ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol fel rhan o'r cerdyn sgorio. Paratoi adroddiad cydymffurfiaeth chwarterol ar gyfer y Grŵp Llywio Iaith Gymraeg a Chydraddoldeb.		ynn y cyd-destun ehangach o drin cwynion. Sicrhau bod y system gwasanaeth llyfrgell yn cefnogi darpariaeth gwbl ddwyieithog gan ddilyn adborth Comisiynydd yr Iaith Gymraeg. Cyflwyno'r safonau iaith i'r holl staff drwy'r Porth Polisi	Ffreuer Owen Ffreuer Owen	Medi 2026 Medi 2026
STR0008	Darparu a moderneiddi o gwasanaeth	Dylan Williams - Prif Weithredwr	Sylweddol (4:3 =12)	Mae Cynllun y Cyngor 2023-2028, a chynlluniau strategol yn darparu trywydd a gweledigaeth strategol ar y cyfan.	Cymedrol (3:3=9)	Datblygu Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer 2028-2033 a chynlluniau strategol cysylltiedig.	Dylan Williams	Medi 2027

Rhif y Risg	Risg	Perchen y Risg	Blaenoriaeth (Effaith x Thebygol rwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddillol (Effaith x Thebygol rwydd)	Camau Gofynnol	Perchen y Weithred	Erbyn
	Mae risg nad yw'r Cyngor yn cynllunio, blaenoriaethu a llwyddo i foderneiddio gwasanaethau'n effeithiol sy'n arwain at wasanaethau'n methu ag ymateb i anghenion, gofynion a disgwyliadau sy'n newid.			Trefniadau cynllunio darpariaeth gwasanaeth strategol blynyddol a'r broses gosod cyllideb flynyddol ar waith. Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) ar gyfer y cyfnod 2026/27 i 2028/29 wedi cael ei gymeradwyo. Cynllunio'r gweithlu - mae cynllun ar waith ar gyfer pob gwasanaeth. Wedi safoni a dilyn y broses asesu effaith. Defnyddir y systemau cynllunio i asesu effeithiau ehangach unrhyw ddatblygiadau. Mae trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad llym ar waith h.y. cynllunio strategol, cynllunio gwasanaeth, craffu, archwilio a pherfformiad. Mae cynlluniau parhad busnes ar waith i gefnogi gwydnwch a pharhad gwasanaeth.		Datblygu Cynllun Strategol Moderneiddio. Cryfhau defnydd y cyngor o ddata wrth greu cynlluniau strategol a gwneud penderfyniadau drwy ddatblygu Cynllun Strategol Gwybodus am Ddata. Datblygu gallu'r gweithlu i gryfhau sgiliau rheoli newid a digidol, data a deallusrwydd artifisial sy'n ofynnol i foderneiddio gwasanaethau a'u darparu yn y dyfodol.	Huw Ynyr Huw Ynyr Huw Ynyr / Eurig Williams	Medi 2027 Chwefror 2027 Medi 2027
STR0009	Llywodraethu a	Lynn Ball - Cyfarwydwr	Critigol (4:5=20)	Fframwaith llywodraethu clir - diffiniad clir o rolau, cyfrifoldebau,	Cymedrol (3:3=9)	Cyhoeddi crynodeb o gyfansoddiad y cyngor ar wefan y cyngor.	Lynn Ball	Mawrth 2027

Rhif y Risg	Risg	Perchen y Risg	Blaenori aeth (Effaith x Thebygol rwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddilliol (Effaith x Thebygol rwydd)	Camau Gofynnol	Perchen y Weithred	Erbyn
	chydymffurfio Gall llywodraethu gwan neu aneffeithiol arwain at ddiffyg cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddio neu statudol, a chosbau neu niwed i'n henw da.	Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)		pwy sydd â'r awdurdod i wneud penderfyniadau ac uwch gyfeirio. Datganiad llywodraethu blynyddol a chamau gwella wedi'u hadnabod, sy'n cael eu craffu gan Grwp Llywodraethu amlddisgyblaethol o bob cwr o'r cyngor. Rhaglen hyfforddi fandadol - mae data am nifer y staff sy'n cwblhau eDdysgu mandadol, ac yn ei ddeall yn cael ei olrhain a'i fonitro drwy'r system eDdysgu. Ymgorffori ymddygiadau disgwylidig, lleihau'r risg o ddiffyg cydymffurfiaeth a chefnogi ymlyniad cyson gyda safonau cyfreithiol a sefydliadol. Mae rhaglen archwilio mewnol effeithiol yn darparu sicrwydd annibynnol, seiliedig ar risg ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolyddion mewnol i uwch arweinwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Diweddarau polisïau - diweddarau polisïau yn unol â'r ddeddfwriaeth ac anghenion y cyngor.		Adolygu'r Cynllun Dirprwyo. Darparu hyfforddiant ar gyfer aelodau newydd y Pwyllgorau Sgriwtini a Llywodraethu. Gweithredu'r Cynllun Adfer a Gwella rheoli gwybodaeth. Datblygu'r system rheoli gwybodaeth CRM. Darparu'r Cynllun Datblygu Sgriwtini.	Lynn Ball Lynn Ball Lynn Ball Lynn Ball Dyfan Sion	Mawrth 2027 Rhagfyr 2026 Ionawr 2027 Rhagfyr 2026 Gorffennaf 2027

Rhif y Risg	Risg	Perchen y Risg	Blaenori aeth (Effaith x Thebygol rwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddilli ol (Effaith x Thebygol rwydd)	Camau Gofynnol	Perchen y Weithred	Erbyn
				Mae polisiâu mandadol yn cael eu cyhoeddi i weithwyr drwy'r Porth Polisi sy'n olrhain a monitro dealltwriaeth a nifer y gweithwyr sydd wedi cydnabod y polisiâu drwy drefniadau adrodd mewnol. Darparu tystiolaeth am gydymffurfiaeth gyda goblygiadau rheoleiddio a deddfwriaethol. Mae rheolyddion sefydliadol sefydlog ar waith, yn cynnwys gweithdrefnau ariannol, fframweithiau rheoli perfformiad a llywodraethu, dulliau rheoli prosiect, prosesau cynllunio strategol, rheolyddion gweithredol, cyfathrebiadau wedi'u strwythuro gyda staff, goruchwyliaeth statudol swyddogion a rhaglen archwilio mewnol. Hyfforddiant rheolaidd ar gyfer aelodau etholedig (yn cynnwys aelodau lleyg a chyf-etholedig) ar y cod ymddygiad a'r cyfansoddiad. Hyfforddiant rheolaidd ar gyfer cynghorau tref a chymuned ar y cod ymddygiad.				

Rhif y Risg	Risg	Perchen y Risg	Blaenori aeth (Effaith x Thebygol rwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddillol (Effaith x Thebygol rwydd)	Camau Gofynnol	Perchen y Weithred	Erbyn
STR0010	Asedau ffisegol Methu â defnyddio adeiladau'r cyngor ac asedau eraill oherwydd eu bod mewn cyflwr gwael.	Rhys Hughes - Dirprwy Brif Weithredwr	Critigol (5:5=25)	Cofrestr asedau. Cadw rhestr eiddo cynhwysfawr a diweddar o asedau'r Cyngor, ac eithrio tai cyngor. Arolygon cyflwr. Cynnal adolygiadau ac asesiadau risg rheolaidd. Archwiliadau, gwasanaethu a gwaith cynnal a chadw cylchol wedi'i drefnu. Mae'r Cynllun Tuag at Net Sero 2026-2031 yn cael ei ymgorffori mewn rheolaeth asedau, sefydlu targedau, arwain penderfyniadau am fuddsoddiad carbon isel a sicrhau bod data yn cael ei gasglu ac adrodd amdano. Mae Strategaeth Cyfalaf yn darparu fframwaith bendant ar gyfer gwariant cyfalaf. Mae'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau (2024-2029) yn darparu dull gydlynol, strategol ar gyfer rheoli asedau yn unol â Chynllun y Cyngor.	Critigol (4:4=16)	Darparu hyfforddiant i swyddogion ar sut orau i ddefnyddio arian grant. Gweithredu a datblygu trefniadau llywodraethu diwygiedig ar gyfer gwneud penderfyniadau am reoli asedau drwy'r Tim Arweinyddiaeth - Cyfalaf a Digidol. Mae achosion busnes yn cael eu datblygu gan ddefnyddio data grymus, cefnogi dull seiliedig ar ddata a sicrhau bod penderfyniadau mewn perthynas â buddsoddi yn seiliedig ar dystiolaeth. Adolygu'r polisi Fframwaith Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Cryfhau'r trefniadau llywodraethu ar gyfer olrhain elfennau critigol i adnabod, marcio ac	Elen Pritchard Dylan Williams Meilir Hughes Huw Percy Huw Percy	Medi 2026 Rhagfyr 2026 Mawrth 2027 Mawrth 2027 Mawrth 2027

Rhif y Risg	Risg	Perchen y Risg	Blaenoriaeth (Effaith x Thebygol rwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddillol (Effaith x Thebygol rwydd)	Camau Gofynnol	Perchen y Weithred	Erbyn
				Mae'r Cynllun Strategol Rheoli Man-ddaliadau (2026-2031) yn darparu dull wedi'i gynllunio ar gyfer rheoli'r ystâd, cefnogi amcanion strategol a hyfywedd hirdymor.		uwchgyfeirio gofynion cynnal a chadw adeiladau'n briodol sy'n peri risg i barhad busnes. Coladu a mewnbynnu data am adeiladau i'r System Rheoli Eiddo i ddylanwadu ar fuddsoddiad a blaenoriaethau. Cerrig milltir: Ysgolion Uwchradd Ystyried sut i wneud y mwyaf o fuddsoddiad cyfalaf o fewn cyllidebau'r Cyngor. Gwella capasiti i gyflawni'r rhaglen waith ar amser. Adnabod sut i ddefnyddio cyllid grant allanol yn effeithiol i ddiogelu asedau.	Huw Percy Huw Percy Marc Jones Huw Percy Huw Percy	Mawrth 2032 Rhagfyr 2027 Mawrth 2027 Mawrth 2027 Mawrth 2027
STR0011	Cartrefi ar gyfer pobl leol	Marc Jones - Cyfarwyd	Cymedrol (3:3 =9)	Cynllun Strategol Tai - blaenoriaethu tai i drigolion lleol.	Cymedrol (3:2 =6)	Adolygu'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol	Ned Michael / Elliw Llyr	Hydref 2026

Rhif y Risg	Risg	Perchen y Risg	Blaenori aeth (Effaith x Thebygol rwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddillol (Effaith x Thebygol rwydd)	Camau Gofynnol	Perchen y Weithred	Erbyn
	Diffyg tai fforddiadwy ac addas i gwrdd ag anghenion tai lleol.	dwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151		Asesiad anghenion tai. Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2024-2029 wedi'i gwblhau. Cydweithio. Prosiectws tai blyneddol a chyflawni'r rhaglen tai cymdeithasol i nodi a blaenoriaethu cynlluniau ar gyfer cymdeithasau tai a datblygu tai cyngor. Mae'r cyngor a chymdeithasau tai eraill yn gweithio ag adeiladwyr lleol i gynyddu'r stoc dai. Gweithredu mesurau i reoli effaith ail gartrefi, gydag incwm ychwanegol wedi'i dargedu ar gyfer tai fforddiadwy a mesurau sy'n elwa trigolion lleol. Darparu'r rhaglen darparu tai cymdeithasol a defnyddio premiwm y dreth gyngor yn ôl hynny.		Sicrhau bod Cynllun Datblygu Lleol newydd Ynys Môn yn ystyried graddfa'r her tai lleol a bod tir addas yn cael ei ddyrannu i gefnogi cymunedau cynaliadwy. Dadansoddi'r data tai a digartrefedd i asesu effaith ymyraethau tai a dylanwadu ar weithgarwch y dyfodol. Sicrhau bod yr holl brosiectau sylweddol a seilwaith yn cynnwys asesiad cynnar ar effeithiau tai, a bod mesurau lliniaru wedi'u hamlygu drwy gynllunio, gweithio mewn partneriaeth a chynlluniau darparu.	Christian Branch	Mawrth 2029
							Ned Michael / Elliw Llyr	Mawrth 2027
							Ned Michael / Elliw Llyr	Mawrth 2027
STR0012	Ymosodiad seiber a thor diogelwch data	Rhys H Hughes - Dirprwy Brif	Critigol (5:5 = 25)	Hyfforddiant ymwybyddiaeth seiberddiogelwch i bob aelod o'r staff Efelychiadau gwe-rwydo ad-hoc	Critigol (5:4 = 20)	Gweithredu'r camau sy'n codi o'r Archwiliad Seiberddiogelwch Ysgolion.	Huw Ynyr	Rhagfyr 2026

Rhif y Risg	Risg	Perchen y Risg	Blaenori aeth (Effaith x Thebygol rwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddillol (Effaith x Thebygol rwydd)	Camau Gofynnol	Perchen y Weithred	Erbyn
	Ymosodiad seiber neu dor diogelwch data llwyddiannus yn arwain at amhariad ar wasanaethau hanfodol, cyfaddawdu gwybodaeth sensitif, camau rheoleiddiol, colledion ariannol a niwed i enw da.	Weithred wr Lynn Ball - Cyfarwyd dwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)		Cyfres o becynnau meddalwedd a gweithdrefnau i leihau'r risg o ymosodiad seiberddiogelwch yn erbyn y cyngor. Polisiau diogelwch TG a defnydd priodol o TG ar waith. Defnyddio CymruSOC (Canolfan Gweithrediadau Diogelwch), wedi ei ariannu gan LIC, i ddarparu goruchwyliaeth ychwanego, cefnogi a gweithredu yn ystod digwyddiadau seiber posibl. Cadw'r achrediad PCI-DSS (blynyddol). Cwblhau gwiriadau iechyd diogelwch allanol a mewnol blynyddol Cadw'r achrediad PSN (blynyddol).		Recriwtio 4 swydd newydd wedi'u cefnogi gan fuddsoddiad ychwanegol gan y Cyngor. Cyflwyno amcanion y Fframwaith Asesu Seiber (i'r CLILC): - Amcan A: Rheoli Risg Diogelwch - Amcan D: Lleihau effaith - Amcan B: Diogelu yn erbyn ymosodiad seiber - Amcan C: Adnabod digwyddiadau seiberddiogelwch Caffael cymorth allanol i sefydlu gweithdrefnau ymateb i ddigwyddiad seiberddiogelwch fydd yn creu'r sylfaen ar gyfer llawlyfrau Rheoli Digwyddiadau Seiberddiogelwch fydd	Lynn Ball / Huw Ynyr Lynn Ball / Huw Ynyr Lynn Ball / Huw Ynyr Lynn Ball / Huw Ynyr Huw Ynyr	Rhagfyr 2026 Mawrth 2027 Mawrth 2027 Medi 2027 Mawrth 2028 Hydref 2026

Rhif y Risg	Risg	Perchen y Risg	Blaenori aeth (Effaith x Thebygol rwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddilli ol (Effaith x Thebygol rwydd)	Camau Gofynnol	Perchen y Weithred	Erbyn
						yn ymddangos mewn CAF aeddfed. Sefydlu gwasanaeth Ymateb Seiberddiogelwch a gadwir y mae modd ei ddefnyddio ar unwaith os bydd angen. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau seiberddiogelwch arbenigol megis sgiliau fforensig sy'n mynd y tu hwnt i allu'r Cyngor, fydd ar gael 24x7x365. Cynnal efelychiadau digwyddiadau seiberddiogelwch yn rheolaidd, yn cynnwys ymarferiad cyngor cyfan blynyddol. Gwella trosglwyddiad SIEM i'r Canolfan Gweithrediadau Diogelwch i sicrhau bod gwasanaeth Cymru SOC yn cael ei ddefnyddio' i'r eithaf a'i fod yn y sefyllfa orau	Huw Ynyr Huw Ynyr Huw Ynyr	Mai 2027 Mehefin 2027 Hydref 2026

Rhif y Risg	Risg	Perchen y Risg	Blaenori aeth (Effaith x Thebygol rwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddilli ol (Effaith x Thebygol rwydd)	Camau Gofynnol	Perchen y Weithred	Erbyn
						bosibl i ynysu a rheoli treiddiad seiberddiogelwch posibl. Caffael a chadarnhau systemau diogelwch ychwanegol ar gyfer rheoli clytwaith ynghyd â rheoli hunaniaeth a mynediad. Ail lansio'r Grwp Strategol CAF ar ôl adolygu aelodaeth a chylch gorchwyl. Datblygu rhestr o systemau critigol clir a manwl (hefyd yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer Amcan B CAF). Sefydlu a chynnal cofrestr asedau gwybodaeth lawn.	Huw Ynyr Lynn Ball / Huw Ynyr Lynn Ball / Huw Ynyr Huw Ynyr	Mawrth 2027 Medi 2026 Ionawr 2027 Mawrth 2028